

YR OEDD Margaret yn hoff iawn o gerdded ar ei phen ei hun a hefyd o ddarllen a dywed ei bod yr adeg honno yn darllen y llyfr poblogaidd "The Basket of Flowers". Cofiaf Mam yn dweud iddi hi ei ddarllen yn nes o lawer at ddiwedd y ganrif a chredaf i minnau hefyd ei ddarllen pan oeddwn yn groten am fod Mam wedi dweud wrthyf amdano, llyfr dagreul iawn!

Hoffai grwydro a gwerthfawrogi natur yn fawr. Bu mewn gwasanaeth Bedydd ar Fawrth y degfed ar hugain ac wedi cinio aeth am dro gydag eraill ger hen felin wynt a thrwy'r caeau i'r traeth ac ar hyd y taeuod.

Roedd ynddi ddigon o ddireidi canys gwnaeth yr hyn a alwai hi yn "April Noddy" o forwyn Mrs Brown trwy ei danfon am "square circle". Drannoeth aeth i gasglu "sea anemones" a daeth dau o'r dynion i'w tynnu â chyn, neu "gaing" fel y galwai Nhad yr offeryn. Buont bron a chael eu dal gan y llanw.

Ar y pumed o'r mis pwy a ddaeth i aros yn Ninbych-y-Pysgod ond y ddwy Miss Williams, Aberpergwm, yn llety Mr a Mrs Herbert (merch yr Arglwyddes a'i phriod, a'r rheini'n mado ail drannoeth). Ond yr oedd yr Arglwyddes wedi gwella'n ddigon da erbyn hynny i fynd ar y 9fed i gasglu cregyn.

Drennydd i ffwrdd â hwy yn gwmni i weld iardiau llongau'r llywodraeth a'r enw ar un yn tynnu eu sylw "The Prince Consort". Bu Margaret gyda'r ddwy chwaer o Aberpergwm i weld y "Great Western", wedyn heibio i Gastell Caerw ac i Benfro a lleoedd lawer eraill. Rhaid oedd mynd am dro un diwrnod i ddal crancod a llyswennod.

Ni welsai Margaret gymint o bethau dieithr iddi erioed. Yr oedd yn dymor briallu lawr yn Sir Benfro fel y mae o hyd yn Ebrill a phan welodd yr Arglwyddes lond gardd o flaen un bwthyn dyma hi'n gofyn a gâi hi gymryd rhai ohonynt.

Yng ngeiriau Margaret na welsai'r fath ryfeddod erioed ei hunan cyn hynny, yr oedd eu lliw "surpassed any I had seen for they varied from pure white to deep scarlet" ac y maent felly bob gwanwyn hyd y dydd hwn.

\* \* \* \*

GANOL Ebrill madawodd yr Arglwyddes ar ôl rhoi cynghorion da i Margaret. Ond nid oedd hi'n hapus o gwbl ei bod yn cael ei gadael ar ôl. Aeth y ddwy chwaer adre i Aberpergwm hefyd a gwag iawn oedd y lle canys fe'u hoffai hwynt yn fawr.

Yr oedd y deunawfed yn ddydd Gwener y Groglith ac yn ôl ei harfer cyson aeth i'r Eglwys yn y bore, a threuliodd y dydd yn hiraethus iawn am ei chartre. Bellach buasai fis cyfan yn

Cwblhau'r pigion o ddyddiadur a gadwodd Margaret pan dreuliodd flwyddyn yn Llanofar o 1861-62 yng nghwmni Gwenynen Gwent.

## Dyddiadur Llanofar

Gan MAIR ELVET THOMAS

Ninbych-y-Pysgod ac am y tro cyntaf derbyniodd bunt, y gyntaf iddi ei hennill, ac anfonodd hi adref "for curiosity".

Erbyn hyn yr oedd y tywydd yn dechrau cynhesu ac âi o amgylch y lle ar ei phen ei hun, ond teimlai'r hwyrnosau'n hir er bod bandiau'r milwyr i'w clywed ac weithiau byddent i'w gweld wrth eu hymarferiadau. Ar Fai y cyntaf daeth dawnswyr o amgylch.

Ymddengys fod rhai cyfeillion i'r Arglwyddes wedi aros lle lletyai Margaret oherwydd clywn iddi helpu rhyw Lady Wilkinson i bacio a chael anrheg o "Pilgrim's Progress" Bunyan ganddi. Ganol Mai dyma bawb yn mado. Yr oedd ffair fawr yn Arberth ac anhawster mawr i fynd i'r orsaf trwy'r dref. Gwisgai'r menywod "the real Pembrokeshire dress: jackets and petticoats alike and tall hats."

Wedi teithio drwy Landŵr (lle daeth Lady Wilkinson a'i phriod allan a'i gadael), a thrwy Gastell Nedd lle gwelodd y ddwy chwaer o Aberpergwm ar ochr arall yr orsaf, ymlaen â'r trên am Gasnewydd ac yna Nantyderry a cherbyd o Lanofar yno'n ei disgwyl.

Mewn ffair yn y pentref gwelodd Elizabeth a dwy arall o'r plas yn eu hetiau uchel.

Ar Fai 19eg aeth tuag ugain ohonynt, y merched yn eu gwisgoedd Cymreig, i Eisteddfod ym Mryn-mawr. Gwisgai Margaret ac Elizabeth glogyn

coch. Ni chwynodd un o'r ddwy eu bod yn boeth yn eu gwisgoedd gwlanen.

Cyn mynd rhaid oedd i bob merch fynd i wydd yr Arglwyddes a oedd mor gynnar ar y bore o hyd yn ei hystafell wely, a mawr oedd ei boddhad wrth edrych arnynt.

Am wyth o'r gloch y bore i ffwrdd â hwy mewn cerbyd ond cyn mynd canwyd "Hen Wlad fy Nhadau" a gwelwyd yr Arglwyddes yn ffarwelio o'i ffenestr. Wrth deithio trwy'r pentref canent alawon Cymreig a chyrrhaeddwyd Bryn-mawr wedi deg o'r gloch.

Galwyd ar Margaret a dwy arall i gyflwyno gwobrau, yn wir cafodd pob un o gwmni Llanofar y gorchwyl hwnnw. Gorffennodd yr Eisteddfod yn hwyr y ôl arfer Eisteddfodau a chyrrhaeddwyd adref wedi llwyr flino ond yn ddiogel er bod y gyrrwyr heb fod yn hollol sobr.

Yr adeg hon bu farw Mr Lewis y cipar ac aeth bron bawb i'r angladd. Gwnaeth Margaret ac Elizabeth, ei ffrind yn Llanofar, bobo dorch o'r ddraenen wen i'w roi ar ei arch. Yr oedd gan bob un dusw bychan o flodau i'w taflu ar yr arch yn y bedd.

\* \* \* \*

DAETH y ddwy Miss Williams am dridiau, a'r un pryd yr oedd pacio mawr am fod nifer o'r teulu'n mynd i Lundain ynghyd â'u gweision a'u morynion. Tra byddent i ffwrdd dyna gyfle i weithwyr ddod i wneud newidiadau yn y plas. Ond daeth

y teulu'n ôl cyn iddynt orffen eu gwaith a bu raid iddynt aros dros dro yn y Tŷ Uchaf.

O'r diwedd cynhaliwyd "afternoon party" mawr i ddathlu'r dychwelyd i'r plas ar ei newydd wedd, a holl fonedd yr ardal yno yn bwyta yn y tŷ ac yn dawnsio ar y lawnt i gerddoriaeth band y Fenni.

Daeth mis Medi a chrybwyllodd Margaret wrth yr Arglwyddes yr hoffai fynd nôl adref. "I felt I could not bear much longer the close confinement" meddai hi yn ei dyddiadur.

Ar Fedi 23ain galwodd yr Arglwyddes arni er mwyn ffarwelio â hi gan ei bod yn mynd i Lundain drannoeth ac y byddai Margaret wedi mynd erbyn iddi hi ddychwelyd adref. Canmolodd hi am iddi fod yn ferch dda a sicrhaodd hi y gallai ddychwelyd i Lanofar pryd y mynnai.

Yr oedd hiraeth Margaret yn fawr am ei bod yn gorffod ffarwelio ag Elizabeth yn bennaf, er ei bod wedi gwneud ffrindiau lawer yno ac wedi bod yn ddigon hapus. Aeth ar y pumed o Hydref i Gapel 'Ed' yn y bore am y tro olaf ac i'r eglwys yn y prynhawn a cherdded o amgylch y tiroedd yn yr hwyr.

Fe'i galwyd fore trannoeth am bedwar o'r gloch ac mor blwygeiniol â hynny daeth pawb allan i ffarwelio a'r dagrau'n agos iawn. Hebyrgodd Elizabeth hi i'r orsaf. Llwyddodd i gyrraedd adref ynghynt na'r disgwyl ac aeth yn syth i swyddfa'i thad.

Diolch i Margaret am gadw'i dyddiadur mor ofalus er mwyn i ni gael cipolwg ar fywyd yng Nghartref Arglwyddes Llanofar, ond buaswn yn falch pe bai wedi sôn mwy am y defnydd a wnaed o'r iaith Gymraeg yno.

## LLYFRAU CATHOLIG

Gan G. G. EVANS

1. Athrawiaeth Gristionogol. Milan 1568. Reprint 1880.

LLYFR GWEDDI  
Y  
CATHOLIG;  
neu  
YMARFERION BYWYD CRISTNOGOL,  
yn ol  
Athrawiaethau  
GWIR EGLWYS IESU GRIST,  
ac yn ol  
EGWYDDORION AC YSPRYD EI EFENGYL EF.

Agos yu'r Arglwydd ar y rhai oll, a alwant arno; at at y rhai oll, a alwant arno mewn gwirionedd.—PS.144

(Devise)

LLF'RPWLL.

ARGRAFFWYD GAN ROCKLIFFE A  
DUCKWORTH,  
49, HEOL-Y-CASTELL

1837

WRTH CHWILIO mewn llyfrgell cymdeithas leol deallais nad oedd y llyfr gweddi a welwn yn perthyn i Eglwys Loegr. Llyfr gyda 462 tudalen ydyw o faint 6 x 4 modfedd bron.

O fewn y clawr ysgrifennodd un J. J. Hennelly, Mount Pleasant, Saltney, ei enw. Diflannodd y ddalen flaen ac yn ei lle ceir dau ddam teipicdig. Dyma sydd ar y cyntaf:

Enclosed is a transcript of the title page of the Prayer Book which you wish to identify. In the Preface it is stated 'That the greater part of this book was written in English by the Very Reverend Dr. Challoner.' The Preface is signed by Edward Metcalfe and dated Talacre, November 1835.

Ar y ddalen arall ceir a ganlyn: List of Welsh Roman Catholic Prayer Books

2. Drych Cristionogawl. Rouen 1585.

3. Crynodeb o Addysg Gristionogawl. Paris 1609.

4. Holwyddoreg Petrus Canisius. Paris, 1609.

5. Gorsedd y Byd. Paris, 1611.

6. Eglurhad Helaethawn o'r Grefydd Gristionogawl St Omer, 1619.

7. Allwydd, neu Agoriad Paradwys i'r Cymry. Luyck (Liege) 1670.

8. Patrwym y Gwir Gristion, neu Ddilyniad Iesu Grist.

9. Llyfr Gweddi. Llerpwill. 1837.

10. Llyfr Gweddi. Caerdydd. 1899.

Mewn pensil ychwanegwyd, "also Yn Llyfr Hwnn 1546-1612." Cofnodwyd llyfrau 3, 5, 6 a 7 uchod yn Llyfryddiaeth y Cymry Gwilym Lley. 1618 yw ei ddyddiad ef i rhif 6. Cofnodir 1, 2 a 8 yn Liberi Walliae. Nodir mai, yn ôl pob tebyg, mewn ogof ger Rhiwhedyn yr argraffwyd rhif 1. Ni cheffais hyd i gyfeiriad yn y naill na'r llall at rhif 4.